

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	24 Mawrth 2023
Teitl:	Adroddiad mewn perthynas ag arolwg yr Aelodau a gynhaliwyd ynghylch amseriad cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau a gwerthusiad o hyfforddiant Aelodau.
Pwrpas yr adroddiad:	Ystyried canfyddiadau arolwg yr Aelodau a gynhaliwyd mewn perthynas ag amseriad cyfarfodydd y Cyngor a gwerthusiad o hyfforddiant yr Aelodau.

Cyflwyniad

O dan Adran 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) mae'n ofynnol bod y Cyngor yn ystyried y Canllawiau Statudol o ran amserau cyfarfodydd a pha mor aml y dylid eu cynnal. Mae'r canllawiau'n berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgorau.

Y Canllawiau Statudol

Dyma'r Canllawiau Statudol:

Adolygu'r trefniadau presennol

1.5 Dim ond aelodau o weithrediaeth y cyngor a ystyrir yn gynghorwyr "amser llawn", ac adlewyrchir hynny yn lefelau'r taliadau y mae hawl ganddynt i'w derbyn am eu cyfrifoldebau arbennig. Ar y llaw arall, ystyrir bod aelodau nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth yn cyflawni'r hyn sy'n cyfateb i rôl "ran-amser" ac mewn llawer o achosion, bydd angen gwneud lle iddi ochr yn ochr ag ymrwymadau eraill cynghorwyr.

1.6 Er bod llawer o gynghorwyr wedi ymddeol, canfu'r Panel Arbenigol fod eraill yn cael anhawster i gyfuno eu hymrwymadau gwaith a dyletswyddau'r cyngor, neu, mewn achosion eraill, llwyddent i wneud hynny drwy aberthu unrhyw amser personol o werth.

1.7 I lawer o ddarpar gynghorwyr mewn gwaith amser llawn, mae i ba raddau mae eu cyflogwyr yn cefnogi eu hymrwymiad newydd yn fater allweddol. Er bod deddfwriaeth cyflogaeth yn rhoi hawl i gynghorwyr gael amser o'r gwaith i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus, gall gweithredu hynny'n ymarferol fod yn dipyn mwy o her.

1.8 Pa bryd a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd yw'r broblem fwyaf yn hyn o beth. Mae modd cyflawni dyletswyddau eraill ar adegau sy'n gyfleus i'r unigolyn ond cynhelir cyfarfod ar amser penodol ac (oni bai bod trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer mynychu cyfarfod o bell) mewn man penodol.

1.9 Nid yw'n ymarferol nac yn ddymunol i Lywodraeth Cymru ragnodi pryd a pha mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd cyngor llawn, pwyllgorau ac is-bwyllgorau gan mai materion i bob awdurdod lleol eu hystyried yn unigol yw'r rhain.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw awdurdodau lleol yn parhau i gynnal eu cyfarfodydd ar yr un amser ag erioed, a hynny oherwydd diffyg ysgogiad i newid. Ni fydd trefniant traddodiadol neu gyfleus i genhedlaeth flaenorol o gynghorwyr o anghenraid yn gyfleus i do newydd o gynghorwyr.

1.10 Dylai pob awdurdod lleol adolygu'r amserau y cynhelir y cyfarfodydd o leiaf unwaith bob tymor, yn fuan ar ôl ethol y cyngor newydd os yn bosibl. Fel arfer, dylid cynnal cyfarfodydd ar amserau o'r dydd, mewn lleoliadau ac mor aml ag sy'n gyfleus i'w haelodau a, chyn belled ag y bo'n ymarferol, dylent roi sylw i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylai cynghorau ddod o hyd i ffyrdd o gynnal arolwg o'r hyn fyddai orau gan eu haelodau, ar ôl pob etholiad o leiaf, a dylent ymrwymo i weithredu ar sail y canlyniadau. Dylid cynnal yr arolwg o fewn tri mis i etholiadau cyffredin. Mater i bob awdurdod yn unigol fydd penderfynu pa mor aml y dylid cynnal arolygon o'r fath.

1.11 Er y gallai'r broses hon olygu newid i batrymau gwaith rhai cynghorwyr a fu'n gwasanaethu ers amser maith, byddai'n werth ei wneud pe bai'n golygu fod y cyngor yn llwyddo'n well i gadw cynghorwyr newydd sydd â dyletswyddau allanol.

1.12 Gallai materion sydd i'w hystyried wrth gynnal arolwg gynnwys y canlynol:

- Ai cyfarfodydd a gynhelir yn ystod y dydd neu gyda'r nos fyddai orau gan y cynghorydd?*
- A oes adegau penodol sy'n peri anhawster i gynghorwyr â nodweddion penodol, fel oed, rhyw, crefydd, cynghorwyr â dyletswyddau gofal, cynghorwyr sy'n gweithio?*

1.13 O ganlyniad i'r arolwg hefyd, dylai awdurdodau lleol ystyried y manteision posibl o gylchdroi amserau cyfarfodydd am nad oes modd plesio pawb o'u haelodau bob amser. Wrth gwrs, byddai'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd amlwg i drefniadau o'r fath er budd aelodau'r cyhoedd.

Arolwg 2022/23

Cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022 i gynnal arolwg Aelodau mewn perthynas ag amseriad cyfarfodydd a holi'r Aelodau ynghylch y rhaglen Ymsefydlu ddiweddar. Mae canfyddiadau llawn yr arolwg i'w gweld yn Atodiad B.

Fe wnaeth 25 Aelod ymateb i'r arolwg (66% o'r holl Aelodau).

Dyma brif gasgliadau'r arolwg:

Amseru'r cyfarfodydd

- O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 96% eu bod yn gallu mynychu ar ddydd Iau, 84% ar ddydd Mawrth, 80% ddydd Mercher, 68% ar ddydd Gwener a 60% ar ddydd Llun;*

- Rhestrodd 5 o'r ymatebwyr ddydd Llun fel y dyddiad a ffefrir ganddynt, gydag 8 yn rhestru dydd Llun fel y dyddiad lleiaf dewisol; Rhestrodd 13 ddydd Mawrth fel y dyddiad a ffefrir ganddynt, gyda 2 yn rhestru dydd Mawrth fel y dyddiad lleiaf dewisol; Rhestrodd 11 ddydd Mercher fel y dyddiad a ffefrir ganddynt gyda 2 yn rhestru dydd Mercher fel y dyddiad lleiaf dewisol; Rhestrodd 13 ddydd Iau fel y dyddiad lleiaf dewisol gyda 0 rhestru dydd Iau fel y dyddiad lleiaf dewisol; a 4 ddydd Gwener rhestredig fel eu dyddiad dewisol gydag 11 yn rhestru dydd Gwener fel eu dyddiad lleiaf dewisol (sylwer, dewisodd sawl Aelod fwy nag 1 diwrnod fel dyddiad a ffefrir, a gadawodd rhai sawl diwrnod yn wag);
- Dywedodd 52% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddyn nhw weld cyfarfodydd y Cyngor yn dechrau am 10.00am; Dywedodd 32% y byddai'n well ganddyn nhw ddechrau am 9.30am;
- Dywedodd 52% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddyn nhw weld cyfarfodydd Pwyllgor yn dechrau am 10.00am; Dywedodd 32% y byddai'n well ganddyn nhw ddechrau am 9.30am;

Sylwadau

Dywedodd yr aelodau fod y rhesymau dros eu dewisiadau yn cynnwys cyfrifoldebau gofal plant a gofalu, gwaith a hunangyflogaeth, cyfrifoldebau o fewn eu Wardiau, a chyfarfodydd eraill sydd fel arfer yn cael eu cynnal ar ddyddiau Llun a Gwener. Er bod yn well gan rai gyfnod cynharach, roedd yn well gan y mwyafrif ddechrau am 10am i ganiatáu amser teithio.

Cynigir felly:

- Dylai cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal yn bennaf ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau;
- Mae'r prif amseroedd cychwyn yn parhau am 10.00am i'r Cyngor a'r Pwyllgorau.

Argymhellion:

Y Pwyllgor i ystyried canfyddiadau Arolwg Aelodau 2022/23 mewn perthynas â'u dewisiadau ar gyfer y dyddiad ac amseru'r cyfarfodydd;

Atodiadau:

Atodiad A - Canfyddiadau Arolwg Aelodau 2022/23

Dogfennau cefndir:

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Enw:

Lowri Edwards

Teitl Swydd:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad:

02.02.2023